PWYLLGOR CRAFFU ADOLYGU POLISI A CHRAFFU PERFFORMIAD

DYDD MERCHER, 13 MAWRTH 2019

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Walker(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Cunnah, Hudson a/ac Mackie |

68 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Y Cynghorwyr Berman, Boyle, Bowen-Thomson a Lister

69 : DATGAN BUDDIANNAU

Roedd gan yr Aelodau gyfrifoldeb dan Erthygl 5 (III) o’r Cyfansoddiad, sef Cod Ymddygiad yr Aelodau, i ddatgan unrhyw fuddiant ac i gwblhau ffurflenni Buddiant Personol ar ddechrau'r eitem agenda dan sylw.

70 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20fed Chwefror 2019 fel cofnod cywir.

71 : CYFLAWNI’R RHAGLEN UCHELGAIS PRIFDDINAS

Croesawodd y Cadeirydd:

Y Cynghorydd Chris Weaver (Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad)
Christine Salter (Cyfarwyddwr Corfforaethol, Adnoddau);
Chris Lee (Newydd wedi penodi - Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau)
Isabelle Bignall (Prif Swyddog Digidol)
Dean Thomas (Rheolwr Portffolio Manager, Rhaglen Gyflwyno’r Uchelgais Prifddinas)
Simon Reynolds (Rheolwr Gweithredu Landlordiaid Corfforaethol)

Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr adroddiad ar y cynnydd sy'n cael ei wneud o ran cyflawni'r Rhaglen Uchelgais Prifddinas. Roedd y rhaglen yn cynnwys dau bortffolio, Moderneiddio a Chydnerthu, a ffocws y cyfarfod hwn oedd y portffolio Moderneiddio.

Gofynnodd y Cadeirydd i’r Cynghorydd Weaver wneud datganiad.

Eglurodd y Cynghorydd Weaver ei fod yn falch bod yr eitem hon yn cael ei harchwilio gan ei bod yn hanfodol gwella datblygiad yr Uchelgais Prifddinas.

Gwrandawodd y Pwyllgor ar gyflwyniad a oedd yn nodi’r prif bwyntiau canlynol:

- Cefndir
  - Moderneiddio: Trawsnewid systemau a phrosesau corfforaethol sy'n cefnogi darparu gwasanaethau
  - Gwasanaethau Cydnerthu; Gweddnewid gwasanaethau rheng flaen

- Llywodraethiant
  - Bwrdd Digidol - Isabelle Bignall
  - Bwrdd Rhaglen Landlordiaid Corfforaethol - Neil Hanratty
  - Bwrdd Adolygu Gwasanaethau - Christine Salter

- Y Sefyllfa Bresennol - Portffolio Moderneiddio

  Rhaglen Landlord Corfforaethol
  - Pobl a Newid
  - Technoleg Saernïaeth
  - Fframwaith Cynnal a Chadw Adeiladau 2[il] Genhedlaeth
  - Egwyddorion Strategol ar gyfer Rheoli Asedau
  - Rhesymoli Storfeydd
  - Un Drws Ffrynt i Gwsmeriaid
  - Llety Swyddfa

  Rhaglen Dewis Digidol
  - Post Hybrid
  - Technoleg Asiant Rhithwir
  - Rheolaeth Wybodaeth Addysg
  - Office 365
  - Porthol Recriwtio AD
  - SharePoint

  Rhaglen Adolygu Gwasanaethau
  - Gorfodaeth Parcio Sifil
  - Trafnidiaeth Gyhoeddus
  - Y Broses Talu o ran Gwasanaethau Cymdeithasol
  - Mân Ddyledion
  - Parciau
  - Pensiynau

Hysbyswyd y Pwyllgor am Adroddiad y Dangosfwrdd Rhaglenni a sut yr oedd hyn yn cefnogi'r prosiectau wrth iddynt symud ymlaen. Gwybodaeth am Adolygiadau Gwasanaeth, gyda chrynodeb o gyflawniadau allweddol.

Rhoddwyd gwybodaeth i'r Pwyllgor am Adolygiadau Gwasanaeth a sut yr oeddent yn gweithredu o fewn y priod adrannau.

Diolchodd y Cadeirydd y Swyddogion am y wybodaeth gan wahodd cwestiynau gan y Pwyllgor.

Roedd aelodau'r Pwyllgor yn awyddus i wybod sut yr oedd gwasanaethau yn cael eu dewis ar gyfer Adolygiadau Gwasanaethau.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor bod Adroddiad gwreiddiol y Cabinet yn amlinellu prosiectau o fewn y Cynllun Cyflawni'r Uchelgais Prifddinas a'r Cynllun Corfforaethol a allai fod yn destun Adolygiad Gwasanaeth. Roedd y meini prawf yn nodi y dylai'r adolygiad fod yn fyrrach, yn fanylach, ac yn dadansoddi gwariant cyllideb, gwariant allanol ac adnoddau staffio.

Roedd Adolygiadau Gwasanaeth yn declyn i nodi a monitro arbedion effeithlonrwydd, er mwyn gwella gwerth ychwanegol. Cafodd y Pwyllgor wybod am y broses a

gymerwyd gan Gyfarwyddwyr wrth nodi adolygiadau o wasanaethau, gan gynnwys y broses feincnodi a ddefnyddiwyd ar y cyd â'r Dinasoedd Craidd.  Croesawyd y rhain gan yr Adrannau ac roedd negeseuon cadarnhaol yn cael eu cyfleu i'r Uwch Dîm Rheoli.   Roedd gan Gyfarwyddwyr dargedau a gwelliannau penodol hefyd a oedd yn cael eu monitro'n barhaus er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu.

Dywedwyd wrth yr Aelodau, fel rhan o'r Strategaeth Ddigidol, roedd Llofnodion Electronig ac Office 365 yn brosiectau a oedd yn cael eu cyflwyno ar draws y sefydliad.

Rhoddwyd gwybodaeth i'r Pwyllgor am y broses feincnodi a ddefnyddiwyd yn yr Adolygiad o'r Gwasanaeth Parcio Sifil.  Roedd yn broses 12 wythnos a oedd yn darparu argymhellion a'r data i'w cefnogi.  Defnyddiwyd data ychwanegol gan CLILC, CLIL a chlwb meincnodi'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg (CIPFA) fel teclynnau i gefnogi'r adolygiad o'r gwasanaeth.

Roedd aelodau'r Pwyllgor yn awyddus i gael gwybodaeth am arfer gorau o fewn Adran y Parciau.  Dywedwyd wrth y Pwyllgor bod adolygiad cychwynnol wedi'i gynnal yn Adran y Parciau a bod ail adolygiad wedi'i gyflwyno i adeiladu ar y canlyniadau a'r gwelliannau a wnaed yn ystod yr adolygiad cyntaf.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y monitro systematig a ddarperir gan y Dangosfyrddau yn cyfrannu at wella cynhyrchiant, yn gwella dulliau llywodraethu a datblygu cerrig milltir.

Cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa bresennol o ran Casglu Gwastraff a bod adroddiad Cabinet wedi'i drefnu, gyda'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol Strydlun, yn darparu Cynllun Gweithredu yn amlinellu ffordd ymlaen a allai ddod yn Adolygiad Gwasanaeth.

Gwrandawodd y Pwyllgor ar gyflwyniad gan Isabelle Bignall, y Prif Swyddog Digidol, a oedd yn nodi'r canlynol:

- Prosiectau digidol cyfredol yn Rhaglen Gyflawni'r Uchelgais Prifddinas
- Ceinciau Digidol a oedd yn amlinellu'r weledigaeth ar gyfer Caerdydd gysylltiedig
- Cynlluniau Blaenoriaeth Digidol
- Addysg Gysylltiedig
- Aelodau Etholedig Cysylltiedig
- Blaenoriaethau Digidol Trosfwaol
- App Caerdydd a'i galluoedd gweithredol
- Adroddiadau Tipio Anghyfreithlon
- E-filio
- Cyflwyno Office 365
- Seiber-Ddiogelwch
- Negeseuo ar Unwaith
- Gwasanaethau Digidol yn 2019

CAM GWEITHREDU: Bod y Cynlluniau Gweithredu'n cael eu rhoi gerbron y Pwyllgor Adolygu Polisi a Pherfformiad i'w hystyried.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor nad oedd gan App Caerdydd y gallu i anfon hysbysiadau am achosion caeedig ar ôl eu cwblhau, ond bod gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu hyn.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Pwyllgor i ofyn cwestiynau.

Roedd aelodau'r Pwyllgor yn pryderu bod ardaloedd o C2C yn cael eu diswyddo, o ganlyniad i gyflwyno'r Rhaglen Ddigidol ddatblygedig.

Sicrhawyd y Pwyllgor, gan fod nifer y galwadau yn lleihau, fod staff yn cael eu hailddyrannu er mwyn cefnogi meysydd gwasanaeth eraill gan gynnwys ymholiadau ynghylch y broses Apeliadau Addysg.

Nododd y Pwyllgor fod galwadau wedi'u categoreiddio fel galwadau gwerth uchel ac isel, gyda galwadau gwerth uchel yn ymwneud â materion cymhleth a materion penodol.

Holodd yr Aelodau ynghylch cyflwyno Office 365, ynghyd â'r posibilrwydd o sefydlu system Rheoli Achosion a fyddai'n cefnogi materion gwaith achos y cynghorwyr. Mynegodd yr Aelodau eu pryderon bod y caledwedd yr oeddent yn ei ddefnyddio i'w cynorthwyo yn eu rôl ac a oedd yn cefnogi gweithio di-bapur yn annigonol ac yn nodi bod angen uwchraddio eu hoffer a'u meddalwedd.

Roedd caledwedd yr Aelodau yn flaenoriaeth, gyda'r posibilrwydd o adnewyddu'r offer, er bod y cyllidebau'n dynn. Byddai achosion unigol yn cael eu dadansoddi a byddai hyn yn cael ei brosesu gan bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd.

Cytunodd y Cynghorydd Stephen Cunnah i fod yn rhan o grŵp prawf yr Aelodau ar gyfer Office 365.

Roedd y Pwyllgor yn awyddus bod mwy o wasanaethau ar gael ar App Caerdydd, er mwyn cefnogi'r cynghorwyr a'r trigolion a oedd yn defnyddio’r gwasanaeth digidol hwn. Rhoddwyd gwybodaeth i'r Pwyllgor am y systemau meddalwedd a oedd yn cefnogi App Caerdydd a sut yr oedd yn cyfleu gwybodaeth.

Sicrhawyd yr Aelodau bod gwaith yn cael ei wneud i hysbysu a chodi ymwybyddiaeth trigolion am gasgliadau gwastraff a gollwyd a'r rhesymau y tu ôl i hyn drwy App Caerdydd.

Awgrymodd Aelodau'r Pwyllgor y dylid cynnal cyrsiau mewn Hybiau i breswylwyr nad oeddent yn hyderus wrth ddefnyddio technoleg. Yn ogystal, roedd Aelodau'r Pwyllgor o'r farn ei bod yn anodd llywio gwefan y Cyngor a dod o hyd i wybodaeth yn enwedig ar y Porthol Cynllunio.

CAM GWEITHREDU: Cytunodd IB i gynnal sesiynau ar ddefnyddio'r wefan ar gyfer yr Aelodau.

Rhoddwyd gwybodaeth i'r Pwyllgor am gysondeb polisïau TGCh ysgolion. Roedd pileri sylfaenol i'w hadeiladu, gan fod rhai Ysgolion wedi dewis cyflenwadau TGCh amgen i'r system Gorfforaethol.

Croesawodd y Cadeirydd Simon Reynolds, Rheolwr Gweithredu Landlordiaid Corfforaethol.

Cafodd y Pwyllgor wybod mai amcan cyffredinol rhaglen newid fewnol Landlordiaid Corfforaethol oedd creu un model gweithredu cydlynus yn y sefydliad a fydd yn arwain ar bob mater yn ymwneud ag eiddo annomestig.

Roedd y Model Gweithredu Landlordiaid Corfforaethol yn cynnwys:

- Y Cynllun Diffinio
- Creu a Chyflawni
- Gweithredu, Cynnal a Chadw

Dros y 12 mis diwethaf roedd yr ailstrwythuro wedi bod yn digwydd ar draws y mannau swyddogaethol wrth baratoi ar gyfer gweithredu Model y Landlord Corfforaethol, sef:

- Ystadau Strategol
- Prosiectau Cyfalaf
- Gwasanaethau Eiddo

Roedd hyn yn cynnwys:
- Prosiect Pobl a Newid
- Canolbwyntio ar y Cwsmer
- Un Drws Ffrynt
- Prosiect Technoleg Saernïaeth

Roedd y rhain yn sbardunau allweddol yn seiliedig ar y fframwaith. Byddai Cam Un yn canolbwyntio ar yr hyn yr oedd ei angen gyda:

- Y Fframwaith mewn lle ar gyfer Cynlluniau Gwaith
- Un Drws Ffrynt
  - Un o'r prif ddulliau i'w chyflawni o fewn y model landlord corfforaethol oedd datblygu pwynt cyswllt 'Un Drws Ffrynt' ar gyfer yr holl gyfathrebiadau sy'n ymwneud ag eiddo, roedd hwn yn bwynt cyswllt unigol ac fe'i rheolwyd drwy ddesg gwasanaeth yr Ystadau Sirol a oedd wedi'i staffio gan Swyddogion cyswllt cwsmeriaid penodedig. Y diben oedd creu proses gyson a oedd yn darparu llywodraethu ystadau sirol dros waith a wnaed ar yr ystâd. Roedd Un Drws Ffrynt wedi cael ei gyflwyno ar draws yr ystâd Addysgol fel cynllun peilot a ddechreuodd ym mis Hydref 2018. Yr hyn a oedd yn allweddol i'r cyflwyno hwn oedd yr ysgolion yn cael ymweliadau gan y Swyddogion Cyswllt Cwsmeriaid er mwyn iddynt gyflwyno'r cynllun peilot ynghyd â chyflwyno llawlyfr diwygiedig yr ysgolion. Gwahoddodd y Cadeirydd y Pwyllgor i ofyn cwestiynau.

Tynnodd y Pwyllgor sylw at y niwed i enw da ysgolion a'r hyn a oedd yn cael ei wneud i leddfu hyn.

Rhoddwyd sicrwydd i'r Aelodau bod y fframwaith wedi cydnabod niwed i’r enw da, a bod newidiadau wedi'u gwneud i'r defnydd o gontractwyr allanol. Roedd ailstrwythuro wedi digwydd yn y Gwasanaethau Eiddo, gan ddod â phobl allanol

newydd i mewn i ymdrin â'r materion hyn.  Roedd prosesau a gweithdrefnau newydd wedi'u cyflwyno i wella rheolaeth a chyflawni o ran ansawdd.

Gofynnodd y Pwyllgor a oedd lleoliad canolfan ailgylchu newydd wedi'i nodi yn lle Heol Wedal.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y prosiect yn parhau fel rhan O'r Rhaglen Landlordiaid Corfforaethol, a oedd yn dod o dan y Bwrdd Rheoli Asedau.  Roedd y storfeydd presennol wedi cael sylw, gyda lleoliadau canolog yn cael eu trafod.

Gofynnodd y Pwyllgor am gael gweld yr 'Adroddiad Opsiynau' ar ôl i'r lleoliadau gael eu trafod yn y Bwrdd Rheoli Asedau.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod RAMIS wedi bod yn llwyddiannus, gyda Rhaglen Diogelwch ac Iechyd Ysgolion yn cael ei sefydlu.  Roedd Tîm Asbestos hefyd wedi'i sefydlu i gefnogi'r rhaglen hon ac roedd gwelliannau'n cael eu gwireddu.

72 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Dim

73 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Daeth y cyfarfod i ben am 6.50 pm